Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Dyffryn Trannon
Trefeglwys
Y Drenewydd
Powys
SY17 5PH

10/06/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mai 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Dyffryn Trannon yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad ag arweinwyr, disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella medrau a chodi safonau ysgrifennu estynedig disgyblion

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad yn llwyddiannus. Maent wedi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol addas i staff er mwyn cysoni'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws yr ysgol.
- Mae athrawon yn darparu gweithgareddau bwriadus sy'n datblygu'r medrau hyn yn adeiladol dros amser, fel yn ystod y sesiynau 'camau bach'. Mae hyn yn rhoi sail gadarn i ddisgyblion wella eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws ystod o ffurfiau.
- Mae athrawon wedi datblygu strategaethau penodol i hyrwyddo datblygiad llythrennedd yn effeithiol. Mae disgyblion yn gwerthuso genres amrywiol yn hyderus ac yn defnyddio eu dealltwriaeth i ysgrifennu darnau estynedig yn annibynnol dros amser.
- Mae staff yn cydweithio'n fwriadus i ddarparu cyfleoedd sy'n adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion. Mae hyn yn cefnogi, ennyn a chynnal diddordeb

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

disgyblion a'u parodrwydd i ymgymryd â thasgau ysgrifennu mewn cyd-destunau dilys ar draws y cwricwlwm.

- Mae athrawon yn darparu adborth gwerthfawr ac adeiladol i ddisgyblion. Mae hyn yn rhoi arweiniad clir iddynt ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith a gwella eu medrau ysgrifennu estynedig.

## Sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ar draws yr ysgol gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws ystod o gyd-destunau cyfoethog.
- Mae arweinwyr a staff yn darparu strwythur effeithiol ar gyfer addysgu mathemateg ar draws yr ystod oedran. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar addysgeg effeithiol a sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth. Mae hyn, yn ei dro, yn hyrwyddo medrau mathemateg disgyblion ynghyd â'u hyder i gymhwyso'u medrau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd byd go iawn.
- Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion gymhwyso'u medrau mewn cyd-destunau difyr. Ceir cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau rhif yn annibynnol ac maent yn datblygu eu gallu i ymateb i heriau syml o fewn yr ardaloedd dysgu.
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ystyried ac ymateb i adborth er mwyn symud eu dysgu ymlaen.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6662044

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol